# Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg
# 2022-2023
# **Cyngor Dinas Casnewydd**

DRAFT

**This document is also available in English.**
**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**

**Cynnwys**

**Rhagair gan yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol**
**Rhagair gan y Prif Weithredwr**

1. Cyd-destun Deddfwriaethol
2. Crynodeb
3. Datblygiadau Allweddol
4. Monitro
5. Cwynion
6. Hyfforddiant
7. Trosolwg ar y gwaith yn unol â'r Safonau
8. Edrych tua'r dyfodol

DRAFT

## Rhagair gan yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol

## Rhagair gan y Prif Weithredwr

## 1. Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi'i baratoi yn unol â Safonau'r Gymraeg 158, 164 a 170, a bydd yn tynnu sylw at sut mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd i'r awdurdod gan Gomisiynydd y Gymraeg, a nodir yn Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Casnewydd.

Yn ogystal ag amlinellu cydymffurfiaeth gyffredinol yr awdurdod, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys yr wybodaeth benodol sy'n ofynnol ei chyhoeddi'n flynyddol yn unol â'r Safonau. Mae hyn yn cynnwys data ar nifer y cwynion rydym wedi'u derbyn, lefelau iaith Gymraeg ein staff, yr hyfforddiant rydym yn ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a lefel y Gymraeg rydym yn gofyn amdani ar gyfer pob swydd wag a swyddi newydd rydym wedi'u hysbysebu yn ystod y flwyddyn ariannol.

I gefnogi ein gwaith yn erbyn hysbysiad cydymffurfio iaith Gymraeg y Cyngor, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi datblygu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 5 mlynedd. Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu Casnewydd fel dinas Gymreig gyda chymunedau amlddiwylliannol ac amlieithog cyfoethog. Mae'n dod â gwaith Cymraeg cyffrous ar draws ystod o feysydd ynghyd ac yn canolbwyntio ar dyfu'r ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid sy'n ymgysylltu â'r Gymraeg; gyrru a chanolbwyntio ein hegni i godi proffil y Gymraeg ar draws y ddinas.

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â chanllawiau arfer da ar ysgrifennu adroddiadau gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fe'i hysgrifennwyd gyda chefnogaeth Grŵp Gweithredu'r Iaith Gymraeg (GGG), ac adolygwyd gan y pwyllgor Craffu cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'i fabwysiadu gan y Cyngor

## Crynodeb

Eleni, mae'r Cyngor wedi addasu i'r sefyllfa newidiol o ran cyfyngiadau COVID. O ganlyniad, rydym wedi gallu gwneud newidiadau cadarnhaol sylweddol yn y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â staff a chymunedau ledled Casnewydd. Mae'r Cyngor wedi addasu i ffyrdd newydd o weithio ac wedi parhau i ddarparu gwasanaethau i'n dinasyddion wrth ddelio'n ofalus â'r risgiau newidiol ond gostyngol sy'n gysylltiedig â'r pandemig.

Wrth i'r byd agor unwaith eto, rydym wedi ymdrechu i weithio'n hyblyg ac ailasesu blaenoriaethau. Rydym wedi adleoli adnoddau yn unol â'r normau cymdeithasol newydd. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar y newidiadau hyn wrth ddychwelyd i ddarparu'r gwasanaethau dwyieithog gorau posibl yn y ddinas.

Gyda'r cyfyngiadau blaenorol diweddar yn ymwneud ag ymgysylltu wyneb yn wyneb yn codi'n sylweddol eleni, rydym wedi gallu ailffocysu ein hegni a gweithio i barhau i wella'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg ar draws ein cymunedau mewn ffordd uniongyrchol ac ystyrlon.

Rydym wedi ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau Casnewydd i gyd-gynhyrchu nifer o adnoddau, gan estyn allan a chysylltu â rhanddeiliaid allweddol sydd wedi helpu i lunio ein negeseuon ynghylch hawliau Cymraeg a sut i fanteisio arnynt. Roeddem wedi gallu parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i werthuso'r cynllun Grant Cymraeg yn y Gymuned i gefnogi gweithgareddau ledled Casnewydd i hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r Cyngor wedi cynyddu ymgysylltu drwy ein gwaith hyrwyddo yn y ddinas i godi ymwybyddiaeth o hawliau, mynediad at wasanaethau a dathlu ein Cymreictod amrywiol. Rydym wedi datblygu adnoddau ar gyfer ymgyrchoedd drwy gydol y flwyddyn gyda chymunedau yng Nghasnewydd, a oedd yn cynnwys plant, pobl ifanc, rhieni ac asiantaethau partner allweddol.

Roeddem yn gallu adeiladu ymhellach ar ymgyrch 'Sawl Wyneb o Gymreictod' y flwyddyn flaenorol, a gweithio gyda gwasanaeth lleol i gynhyrchu cyfres o ffilmiau byr i ddathlu amrywiaeth gyfoethog Casnewydd a'i chymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae'r prosiect cyffrous hwn yn ehangu ar y gwaith o amgylch hunaniaeth Gymraeg a chynhwysiant ar draws y ddinas.

Nid yn unig yr ydym wedi gallu ymgysylltu â'n partneriaid mewn ffyrdd arloesol a newydd, ond rydym wedi parhau i edrych ar ein prosesau mewnol ac addasu i ffyrdd newydd o weithio. Mae ymgysylltu â staff a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn ein gweithlu hefyd wedi parhau i fod yn brif flaenoriaeth arall i'r Cyngor. Mae cyfleoedd dysgu anffurfiol wythnosol newydd i staff ymuno â sesiynau hybrid "Sgwrsio Dros Ginio" amser cinio wedi rhoi'r gallu i ddysgwyr a siaradwyr medrus ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg y maent wedi'u datblygu. Wrth wneud hynny, maent wedi cynyddu eu hyder a'u sgiliau iaith hyd yn oed ymhellach. Mae hyn wedi sicrhau bod y Gymraeg wedi dod yn rhan bwysig o'r tapestri lliwgar o weithio o fewn y sefydliad.

Mae Safonau'r Gymraeg yn parhau i roi fframwaith i Gyngor Dinas Casnewydd weithio oddi mewn iddo tuag at ddyhead Llywodraeth Cymru o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon ni barhau i ailystyried a datblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ac i weithredu'r Strategaeth Hyrwyddo 5 Mlynedd sy'n llywio polisi, cynlluniau a rhaglenni gwaith ar draws y cyngor er mwyn helpu i gyflawni Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Cyhoeddir y dogfennau hyn hefyd ar wefan y Cyngor

Mae Swyddog y Gymraeg yn cael ei gefnogi gan Grŵp Gweithredu'r Gymraeg (GGG) y Cyngor, sydd â'r rôl o sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg 2015 o dan Fesur y Gymraeg 2011, yn parhau i gwrdd bob 3 mis i brif-ffrydio'r Gymraeg mewn cyflogaeth, darpariaeth gwasanaethau a gwaith partneriaeth. Mae GGG yn adolygu cynnydd yn erbyn amcan y Gymraeg gan gynnwys y CSCA a Strategaeth 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd cadarnhaol eleni, yn ogystal â nodi meysydd lle mae gennym waith i'w wneud o hyd. Er gwaethaf realiti costau cynyddol a phwysau ariannol wrth i ni symud ymlaen, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn parhau i fuddsoddi yn yr iaith Gymraeg, i gefnogi cydymffurfiaeth fewnol â safonau, a hwyluso mentrau partneriaeth a chymunedol. Mae ein gwaith gyda'r Gymraeg hefyd yn parhau i gael ei gefnogi gan Hyrwyddwr Aelodau Etholedig.

# 2. Datblygiadau Allweddol

## Swyddog Hybu'r Gymraeg

Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, sefydlodd y Cyngor y swydd dros dro i ddatblygu ymgysylltu â'r gymuned. Parhaodd hyn tan hydref 2022. Roedd y cylch gwaith yn parhau i gynnwys ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ardal Pilgwenlli yng Nghasnewydd i hyrwyddo addysg Gymraeg a hyrwyddo addysg Gymraeg yn gyffredinol.  Roedd y rôl hefyd yn cynnwys hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol i staff a thrigolion Casnewydd.

Gweithiodd ein swyddog yn agos gydag ysgolion a rhanddeiliaid cymunedol i gefnogi a datblygu Cynllun Hyrwyddo a oedd yn gyson â deilliannau'r CSCA a thargedau addysg cyffredinol. Chwaraeodd ran allweddol o ran llunio gwaith llywodraethu a monitro'r cynllun yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Yn 2022, daeth y cynllun hwn yn rhan annatod o'r CSCA ac mae bellach yn ymddangos fel Deilliannau 5 a 7 o'r cynllun hwn ac yn ffocws is-grwpiau'r CSCA Tyfu a Chynnal.  Mae'r gwaith hyrwyddo hwn yn cael ei oruchwylio gan bartneriaid allweddol ym maes addysg ledled y ddinas.

Gan gynorthwyo'r pedwar Pennaeth yn yr ysgolion Cymraeg ynghyd â rheolwr prosiect, fe wnaeth y swyddog ddatblygu nifer o weithdai ac adnoddau i'w huwchlwytho i HWB.    Dan arweiniad Llywodraeth Cymru, mae Hwb yn darparu gwasanaethau dwyieithog, digidol i bob ysgol a gynhelir i gefnogi addysgu a dysgu drwy'r Cwricwlwm i Gymru.  Fe wnaeth y prosiect hwn helpu disgyblion i ddatblygu eu sgiliau o ganlyniad i'r addysg a gollwyd ganddynt yn ystod cyfnodau clo'r pandemig.

Yn fewnol, cefnogodd y swyddog weithgareddau hyrwyddo ar gyfer staff, gan gynnwys ffilm Shwmae/ Su'mae ym mis Medi a chyflwyno sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith ar gyfer gweithlu'r Cyngor.

## Grantiau'r Gymraeg yn y Gymuned

Fe wnaeth y Cyngor sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi unigolion, grwpiau, a sefydliadau cymunedol lleol i hyrwyddo, hwyluso a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ledled Casnewydd.  Roedd y grantiau ar gael i brosiectau a oedd yn dymuno datblygu ymyriadau a fyddai'n:

- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn amgylcheddau cymdeithasol a rhai heb fod mewn amgylchedd addysgol.
- Cynyddu amlygrwydd y Gymraeg yng Nghasnewydd
- Cefnogi siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ar draws y ddinas i ddefnyddio / ymarfer / datblygu eu sgiliau.

Roedd y cyllid a oedd ar gael ar gyfer amrywiaeth o wariant, a gallai gynnwys ond nid oedd wedi ei gyfyngu i:

- Brynu deunyddiau ategol sydd i wella cyfathrebu neu ehangu ei gyrhaeddiad
- Dalu costau digwyddiad neu weithgaredd yn y gymuned leol.
- Brynu offer newydd a bydd hynny'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg
- Gostau sy'n gysylltiedig â datblygu deunyddiau cymorth a rhwydweithiau.

DRAFT

Parhaodd y gwaith hwn drwy gydol 2022/2023 ac roedd prosiectau a ddefnyddiodd y cynllun grant yn hyrwyddo'r Gymraeg ar draws ystod amrywiol o gymunedau'r ddinas.  Gellir gweld crynodeb o rai o'r canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd gan y prosiectau hyn yn Atodiad Un.

## Polisïau a Strategaethau

Dros y 12 mis diwethaf, llwyddodd y cyngor i gyhoeddi nifer o strategaethau a pholisïau newydd sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg.

**Cynllun Corfforaethol 2022-27**

Ym mis Tachwedd 2022, cymeradwyodd Cyngor Dinas Casnewydd ei Gynllun Corfforaethol newydd 2022-27 i ddarparu ‘Casnewydd Uchelgeisiol, Tecach a Gwyrddach i Bawb’. Mae Cynllun Corfforaethol Casnewydd yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan y Gymraeg i’n cymunedau, ein haddysg a’n busnesau dros y pum mlynedd nesaf ac mae’n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Safonau’r Gymraeg. Wrth ddatblygu’r Cynllun Corfforaethol, gwnaethon ni hefyd alinio’r Cynllun Corfforaethol â nodau Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA). Yn fwy penodol mae gennym yr amcanion a’r is-amcanion canlynol:

• Amcan Llesiant 1 (Economi, Addysg, Sgiliau) – Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd drwy wella mynediad at addysg Gymraeg, cefnogi busnesau a hyrwyddo'r Gymraeg.

• Amcan Llesiant 4 (Cyngor Cynhwysol, Teg a Chynaliadwy) – Dod yn sefydliad cynhwysol sy'n cynrychioli dinasyddion Casnewydd, gan ddarparu cyfle cyfartal i bobl lwyddo a gosod y dinesydd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg**

Cafodd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032, ei gefnogi gan swyddog y Gymraeg a swyddog hybu'r Gymraeg trwy ddigwyddiadau ymgysylltu ag amrywiaeth o aelodau’r Fforwm Addysg Gymraeg.   Cafodd y cynllun ei fabwysiadu gan y cyngor llawn a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn hon.

**Cynllun Hyrwyddo Addysg Gymraeg**

Cwblhaodd Swyddog Hybu'r Gymraeg gynllun hyrwyddo i helpu i gyflawni'r canlyniadau a restrir yn y CSCA.  Roedd y cynllun hyrwyddo hwn yn cynnwys rhestr o weithgareddau a gynhaliwyd gan y cyngor a rhanddeiliaid i hyrwyddo addysg Gymraeg ar draws Casnewydd. Mae'r cynllun hyrwyddo hwn bellach wedi'i gynnwys yn y CSCA ac mae'n cael ei oruchwylio gan yr holl bartneriaid allweddol sy'n bwydo i is-grwpiau’r CSCA, sef Tyfu a Chynnal.   Mae mewnbwn gan randdeiliaid, sy'n aelodau o is-grwpiau’r CSCA, wedi helpu i ddatblygu'r gwaith hyrwyddo hyd yn oed ymhellach.

**Polisi Sgiliau’r Gymraeg**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae polisi sgiliau’r Gymraeg newydd bellach wedi cael ei roi ar waith gan y cyngor a aeth yn fyw ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon. Roedd hyn yn cynnwys

mabwysiadu'r fframwaith Cymdeithas Profwyr Ieithoedd Ewrop (ALTE). Mae ALTE yn grŵp o sefydliadau profi iaith Ewropeaidd blaenllaw sy'n helpu pobl i ddeall canlyniadau arholiadau. Datblygodd ALTE gyfres o ddatganiadau "Gallu Gwneud" sy'n disgrifio'r hyn y gall person "ei wneud" gan ddefnyddio'r iaith ar lefel benodol ac mewn cyd-destun penodol. Mae mabwysiadu fframwaith ALTE gan Gyngor Dinas Casnewydd wedi hwyluso dull o hunanasesu gallu ieithyddol yn y Gymraeg ar draws y gweithlu. Mae'r polisi sgiliau newydd hefyd wedi cynnwys pob swydd sy'n cael ei hysbysebu fel rhai Cymraeg dymunol o leiaf a pholisi Cymraeg Clir er mwyn helpu i gefnogi a datblygu hyder ar draws yr holl siaradwyr Cymraeg ar draws y cyngor.

**Strategaeth Hyrwyddo 5 Mlynedd**

Ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yw: ***"Gweld, Clywed, Dysgu, Defnyddio, Caru"*** ac i bawb yng Nghasnewydd ddefnyddio, gweld a chlywed y Gymraeg fel iaith fyw ym mhob rhan o fywyd ar draws y ddinas ac ar draws yr holl gymunedau amrywiol.

Mae'r strategaeth wedi ei seilio ar 3 thema strategol i wireddu ein gweledigaeth. Mae hi'n adlewyrchu proffil ieithyddol y ddinas, ein blaenoriaethau Cymraeg presennol a'n dyheadau ar gyfer twf y Gymraeg. Gellir gweld diweddariadau ar bob un o'r themâu isod.

**Thema 1 Cymunedau a Diwylliant**

Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws ein cymunedau, normaleiddio'r Gymraeg fel ei bod yn cael ei chlywed a'i gweld y tu allan i amgylcheddau ffurfiol fel ysgol, coleg neu'r gweithle. Mae'r thema hon yn ceisio ymgysylltu â defnyddwyr anhraddodiadol y Gymraeg, gan gynnwys ein cymunedau ethnig leiafrifol, ac ehangu ein partneriaethau cymunedol. Drwy'r thema hon, rydym yn ceisio ehangu'r partneriaid yr ydym yn gweithio gyda nhw i hyrwyddo'r Gymraeg, gan adeiladu ar ein gwaith gyda Fforwm Iaith Gymraeg Casnewydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol eraill, fel timau chwaraeon a phartneriaid yn y sector cyhoeddus.

Mae hyrwyddo dwyieithrwydd ac addysg Gymraeg wedi bod yn un o flaenoriaethau adran addysg y cyngor, drwy'r Fforwm Addysg Gymraeg, is-grwpiau'r CSCA ac allgymorth gan swyddogion y cyngor mewn digwyddiadau ledled Casnewydd.

Gwnaethom ddatblygu ymgyrchoedd i gyd-gynhyrchu adnoddau fideo gyda phreswylwyr ac asiantaethau partner allweddol yng Nghasnewydd i hyrwyddo gwasanaethau ac addysg Gymraeg yn y ddinas. Roedd y fideos hyn yn amlygu hawliau o amgylch y Gymraeg, pam bod y Gymraeg yn bwysig i bobl Casnewydd a pha opsiynau sydd ar gael i rieni a phlant sy'n ystyried addysg Gymraeg. Yn ystod y broses, roeddem yn gallu hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg i Oedolion lleol ac atgyfeirio unrhyw oedolion sydd eisiau dechrau neu ddatblygu eu sgiliau.

Roedd datblygu ein partneriaeth gyda'r Dreigiau a Chlwb Pêl-droed Casnewydd hefyd yn rhan o waith y cyngor. Yn y flwyddyn i ddod, rydym yn anelu at adeiladu ar y partneriaethau a pharhau i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan sylfaenol o ddigwyddiadau chwaraeon allweddol yn y ddinas wrth symud ymlaen.

**Thema 2 Addysg**

Mae'r thema hon yn sicrhau bod gweithgareddau Cymraeg ledled y ddinas yn cyd-fynd â'r targedau a nodir yn ein CSCA, ac yn eu cefnogi. Rydym am i bob teulu fod yn ymwybodol o opsiynau addysg Gymraeg ledled Casnewydd, ac i ddeall manteision derbyn addysg ddwyieithog. Mae'r thema hon hefyd yn canolbwyntio ar gefnogi rhieni plant mewn addysg Gymraeg, yn enwedig y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Gan weithio o fewn y thema hon, rydym wedi gallu ymgysylltu'n llwyddiannus â chymunedau ledled y ddinas i hyrwyddo opsiynau addysg Gymraeg sydd ar gael i rieni mewn digwyddiadau ledled y ddinas eleni, megis:

- Cymraeg i Blant, Malpas
- Cymraeg i Blant, Brynhyfryd Road
- Digwyddiad Cawod Babi yng Nglan yr Afon Casnewydd ar gyfer rhieni beichiog
- Diwrnod hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghanolfan Mileniwm Pilgwenlli yn cael ei gynnal gan Menter Iaith Casnewydd

**Thema 3 Cyflogwyr a Sgiliau**

Mae ein thema olaf yn ystyried yr enghraifft y dylai'r cyngor ei gosod fel sefydliad sy'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym am greu amgylchedd lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu hystyried yn gyfartal, a lle mae staff yn teimlo eu bod yn gallu defnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Rydym hefyd yn awyddus i weithio gyda'n partneriaid Casnewydd yn Un i sicrhau dull cyson o ddatblygu gweithluoedd Cymraeg eu hiaith sy'n addas at y diben, ac yn cydweithio i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau ledled y ddinas.

Yn unol â'r thema hon i greu amgylchedd sy'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, llwyddodd y cyngor i sefydlu sesiynau peilot dysgu anffurfiol o'r enw "Sgwrsio Dros Ginio". Nod cyffredinol y sesiynau yw datblygu hyder pobl sy'n dysgu neu sydd wedi dysgu Cymraeg neu'r rhai sy'n siarad Cymraeg, ond sydd wedi colli hyder wrth ddefnyddio'r iaith. Y gobaith yw y bydd y fenter newydd hon yn cynorthwyo'r gweithlu drwy gynyddu hyder a sgiliau yn y gweithle wrth ddefnyddio'r iaith a sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o weithio yn yr awdurdod lleol.




Gyda ffocws gwahanol bob wythnos, y grwpiau, a hwylusir gan swyddog y Gymraeg, sy'n dewis cyfeiriad y sesiynau. Weithiau mae'n gysylltiedig â gwaith (ateb y ffôn), weithiau'n seiliedig ar bwnc (cwrdd â phobl, mynd ar wyliau, siopa yn Gymraeg, prynu bwydydd), tymor penodol (Gaeaf, Nadolig, Gwanwyn), neu'n gysylltiedig â'r newyddion.

Gan gwrdd bob yn ail wythnos, mae dau grŵp wedi'u sefydlu fel sesiynau hybrid; gan roi'r opsiwn i fynychwyr weithio wyneb yn wyneb neu ar-lein. Pa un bynnag sydd fwyaf addas i'r dysgwr.

Mae'r grŵp lefel Mynediad a Sylfaen ar gyfer dechreuwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu hyder staff y cyngor i roi'r Gymraeg sydd ganddynt neu maent wedi'i dysgu yn yr ystafell ddosbarth ar waith, trwy drafod pynciau bob dydd. Mae'r sesiynau, sy'n cael eu cyflwyno'n ddwyieithog, yn annog staff i ddefnyddio'r iaith darged, sef Cymraeg, gymaint â phosibl.

Mae'r ail grŵp, ar gyfer siaradwyr Cymraeg mwy profiadol o lefel Canolradd i Gloywi (rhugl), yn dilyn yr un fformat. Cyflwynir y sesiynau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.

Cafodd y peilot, a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2022 a Mawrth 2023, ei werthuso gan GGG ym mis Mawrth 2023. Penderfynwyd parhau â'r sesiynau yn dilyn arolwg o'r gweithlu i archwilio unrhyw newidiadau yr oedd angen eu gweithredu. Bydd yr arolwg hwn yn siapio darpariaeth ac amlder y fenter yn ystod y flwyddyn i ddod ac adroddir arno ym mhob un o gyfarfodydd GGG ac adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

DRAFT

## Hyrwyddo Addysg Ddwyieithog

Gan weithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Addysg, rydym wedi diweddaru'r llyfryn "Dod yn Ddwyieithog" i rieni i gynnwys yr ysgol gynradd Gymraeg newydd Nant Gwenlli. Mae'r adnodd hwn wedi bod yn ffocws i nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol yn 2022/23 i gysylltu â rhieni a thrafod opsiynau ar gyfer addysg Gymraeg ar draws y ddinas i'w plant. Drwy wneud hynny, roeddem yn gallu cychwyn trafodaeth gyda rhieni am daith bosibl eu plentyn i addysg Gymraeg.




## Hyrwyddo'r Gymraeg

Yn ogystal â gwaith ein Swyddog Hybu, mae'r cyngor hefyd wedi:

- Parhau i hyrwyddo dyddiadau allweddol gydol y flwyddyn i gymunedau a staff, gan gynnwys:




- Cystadleuaeth ffilm [Dydd Gŵyl Dewi]() i ddathlu ac arddangos pam y mae'r Gymraeg yn bwysig i ddysgwyr ifanc Casnewydd. Cymerodd pedair ysgol ran yn y gystadleuaeth a derbyniodd pob un o'r cystadleuwyr daleb llyfr o £50 am eu cyfraniadau. Roedd y ffilmiau hyn ar gael trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol ac ar sianel YouTube y cyngor.




- Rhedeg cylchlythyr arbennig Dydd Gŵyl Dewi ar gyfer staff a oedd yn cynnwys:
  - manylion y Comisiynydd y Gymraeg newydd;
  - ymweliadau rhithwir â rhai o safleoedd twristiaeth allweddol Cymru,
  - cwis ar bopeth yn ymwneud â Chymreictod,
  - canllaw dwyieithog "sut i" ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd rhithwir,
  - dolenni i ddefnyddio cefndiroedd cyfarfod rhithwir (a oedd yn dangos bod mynychwyr yn siarad neu'n dysgu Cymraeg), a
  - canllaw i ymadroddion Cymraeg bob dydd.
- Sesiynau galw heibio ar gyfer staff y cyngor sy'n dymuno trefnu cyfarfodydd dwyieithog ar Microsoft Teams yn dilyn diweddariad o'r llwyfan hwn gan Microsoft ym mis Rhagfyr 2022.
- Ffilm ar gyfer [Diwrnod Shwmae/ Su'mae](), a bostiwyd ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a oedd yn edrych ar bwysigrwydd dechrau pob sgwrs yn Gymraeg. Recordiwyd cynnwys y ffilm hon mewn digwyddiadau cymunedol yn y ddinas a gan staff y cyngor.
- Cynhyrchwyd o ffilmiau ar gyfer [Diwrnod Hawliau'r Gymraeg]() a oedd yn edrych ar farn trigolion a rhanddeiliaid allweddol ar gael mynediad i'w hawliau Cymraeg yn y ddinas. Roedd y ffilmiau hyn, a oedd ar gael drwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, yn cynnwys cyfraniadau gan fyfyrwyr ysgolion uwchradd Gwent Is Coed, rhieni a phlant o grwpiau rhieni a babanod Cymraeg lleol, cydweithwyr yn y trydydd sector sy'n gweithio yn y ddinas a staff sy'n gweithio mewn amrywiaeth o adrannau'r cyngor.

* Noddi a chefnogi [Gŵyl Newydd](), yr ŵyl Gymraeg flynyddol, eleni a gynhaliwyd yng Nghanolfan Glan yr Afon yn y ddinas i ddathlu'r iaith Gymraeg, diwylliant, y celfyddydau Cymraeg a Chymreictod. Yn cael ei gynnal ddiwedd Medi 2022, roedd gan y cyngor rôl sylweddol ar y diwrnod trwy agor y digwyddiad gyda chroeso gan hyrwyddwr y Gymraeg y Cyngor. Hefyd, roedd gan staff y cyngor stondin wybodaeth i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, opsiynau addysg Gymraeg y cyngor i ddysgwyr ifanc yn y ddinas a swyddi gwag o fewn y cyngor.




* Parhau i gynnig cynrychiolaeth ar fforymau lleol gan gynnwys Mwy na Geiriau, a darparwyd diweddariad yn adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr (2022/23) ar ein dull o ddatblygu cynllun gweithredu i weithredu Mwy na Geiriau.

DRAFT




- Rydym hefyd wedi cynnig cynrychiolaeth ar Fforwm Iaith, Deddf, cyfarfodydd rhanbarthol y prosiect hybu'r Gymraeg a Rhwydiaith. Mae'r gwaith hwn wedi sicrhau bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi cael dylanwad ar faterion iaith Gymraeg ar sail dinas-gyfan, ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol yng Nghymru.
- Creu fideo mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru ar amlieithrwydd. Mae'r ffilm fer hon, a baratowyd i'w defnyddio mewn ysgolion ar draws y rhanbarth, yn edrych ar fanteision dysgu iaith ar gyfer llwybrau gyrfaol a chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol. Cafodd y ffilm hon ei chynllunio a'i recordio yn 2022/23, gyda'r bwriad o gael ei rhyddhau yn y dyfodol yn 2023/24.

### Cyflogaeth a Sgiliau

Mae'r Bwrdd Sgiliau Cywir, sy'n adrodd i Gasnewydd yn Un, yn fforwm partneriaeth sy'n ceisio sicrhau bod pobl yn gallu manteisio ar raglenni sgiliau ac addysg sy'n cefnogi bywyd sy'n cael ei fyw'n dda. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfleoedd cyflogaeth lleol cynaliadwy ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan alluogi unigolion a chymunedau i wireddu eu potensial. Mae'r grŵp hwn yn ystyried argymhellion ar sut y gallwn gydweithio i hyrwyddo a chefnogi datblygiad sgiliau iaith Gymraeg ar draws y ddinas.

Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio gyda Gyrfa Cymru i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac rydym wedi cynhyrchu fideo i'w ddefnyddio ledled y wlad ar fanteision proffesiynol amlieithrwydd a sut y gall dysgu iaith gynyddu cyflogadwyedd a chyfleoedd gyrfaol yn y dyfodol.

DRAFT

## 3. Monitro

### 1. Gofynion Cymhwysedd Cymraeg ar gyfer swyddi newydd (pob swydd)

Mae'r rheolwr recriwtio a'r tîm Adnoddau Dynol (AD) yn ymgymryd ag Asesiad o'r Gymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu wag a hysbysebir trwy ein proses recriwtio arferol gan ddefnyddio ein system AD, iTrent.

| Nifer y swyddi newydd 2020/21 | Nifer y swyddi newydd 2021/22 | Nifer y swyddi newydd 2022/23 |
|---|---|---|
| 291 | 392 | 412 |

| 2020/21 | | |
|---|---|---|
| **Gofyniad Cymhwysedd Cymraeg** | **Nifer** | **Canran o'r Cyfanswm** |
| **Hanfodol** | 6 | 2.06 |
| **Dymunol** | 17 | 5.84 |
| **Ddim yn angenrheidiol** | 268 | 92.10 |
| **I'w ddysgu wrth weithio yn y swydd** | 0 | |
| **Cyfanswm** | 291 | |
| **2021/22** | | |
| **Gofyniad Cymhwysedd Cymraeg** | **Nifer** | **Canran o'r Cyfanswm** |
| **Hanfodol** | 11 | 2.8 |

| | | |
|---|---|---|
| **Dymunol** | 43 | 11 |
| **Ddim yn angenrheidiol** | 338 | 86.2 |
| **I'w ddysgu wrth weithio yn y swydd** | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | 392 | |
| **2022/23** | | |
| **Gofyniad Cymhwysedd Cymraeg** | **Nifer** | **Canran o'r Cyfanswm** |
| **Hanfodol** | 15 | 3.6% |
| **Dymunol** | 164 | 39.8% |
| **Ddim yn angenrheidiol** | 231 | 56.1% |
| **I'w ddysgu wrth weithio yn y swydd** | 2 | 0.5% |
| **Cyfanswm** | 412 | |

O 1 Ebrill 2022, lansiodd Cyngor Dinas Casnewydd y Polisi Sgiliau Iaith Gymraeg. Roedd y polisi hwn yn tynnu sylw at ymrwymiad y Cyngor i'r Iaith Gymraeg, sut mae'n ceisio cefnogi staff sy'n dysgu Cymraeg neu sydd eisoes yn siarad Cymraeg a sut mae'n cefnogi rheolwyr i ddatblygu eu timau trwy'r broses recriwtio. Roeddem eisiau sicrhau ein bod yn creu amgylchedd a diwylliant lle mae'r ddwy iaith yn cael eu hystyried yn gyfartal, a lle mae staff yn teimlo eu bod yn gallu defnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae'r polisi hwn yn ceisio nodi dull cydlynol o recriwtio, hyfforddi a datblygu dysgwyr a siaradwyr Cymraeg ar draws y cyngor, er mwyn helpu i sicrhau twf y Gymraeg yn y gweithle.

Dynodwyd pob swydd wag yn rhai Cymraeg dymunol o leiaf gyda'r holl swyddi gwag yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog. Caiff gallu ieithyddol yn y Gymraeg ei fesur gan ddefnyddio'r Fframwaith ALTE. Yn 23/24, byddwn yn gweithio i ddatblygu'r gwaith o ymgorffori'r dull hwn ymhellach, gan sicrhau bod yr holl ddisgrifiadau swyddi ar gyfer rolau a hysbysebir ar gael yn ddwyieithog.

Er bod ysgolion yn cael eu hystyried yn y ffigurau cyffredinol hyn ar gyfer y cyngor, nid yw ysgolion yn ddarostyngedig i'r un gofynion o dan Safonau'r Gymraeg ac felly nid oes angen iddynt fabwysiadu ein polisi iaith Gymraeg.

Rydym yn gobeithio gweithio gyda phob ysgol leol dros y flwyddyn nesaf i annog creu rolau lle mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol wrth recriwtio o fewn addysg a bod yr holl ddisgrifiadau swyddi ar gyfer rolau a hysbysebir ar gael yn ddwyieithog.

## 5. Cwynion

Yn unol â'n gweithdrefn gwyno, cafodd cwynion Cymraeg a dderbyniwn gan y cyhoedd eu cofnodi gan ein Canolfan Gyswllt drwy system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC) y Cyngor, sy'n golygu bod pob cwyn Gymraeg yn cael ei chofnodi a'i rhannu'n gywir gyda swyddogion priodol i weithredu arni. Mae cwynion hefyd yn eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd Grŵp Gweithredu'r Gymraeg y cyngor lle y trafodir camau adferol a dysgu. Mae hyn yn cynnwys cwynion a dderbyniwn gan y cyhoedd, neu drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Mae cwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn gyffredin i bob sefydliad sy'n ddarostyngedig i weithio o fewn Safonau'r Gymraeg. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob sefydliad sy'n gweithio o fewn y safonau ymgymryd â'r canlynol:

- cadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion y mae'n eu derbyn sy'n ymwneud â'i gydymffurfiaeth â'r safonau. (Safon 147)



DRAFT

- cadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig y mae'n ei derbyn sy'n ymwneud â'i gydymffurfiaeth â'r safonau y mae dyletswydd arno i gydymffurfio â hwy, sef y safonau hynny yn ei hysbysiad cydymffurfio.  (Safon 148)
- cadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig y mae'n ei derbyn sy'n ymwneud â'r Gymraeg.  (Safon 149)
- cadw cofnod o'r camau y mae wedi'u cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi y mae ganddo ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (Safon 150)

Yn 2022/2023, derbyniodd y cyngor gyfanswm o: 3 yn uniongyrchol i'r Cyngor a 2 drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

**Cwynion Uniongyrchol**

O ran y cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol i'r Cyngor, roedd un yn parhau o adroddiad y llynedd. Roedd y gŵyn hefyd wedi dod i law drwy Gomisiynydd y Gymraeg ac roedd yn ddarostyngedig i'w weithdrefn gwyno, gweler isod (Comisiynydd y Gymraeg).

Mae'r holl gwynion eraill i'w gweld isod:

| Dyddiad: | Natur y gŵyn | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| **07/11/2022** | Diffyg enwau Cymraeg ar blatiau strydoedd yng nghanol y ddinas. | Datryswyd drwy ysgrifennu at y preswylydd i egluro bod polisi cymeradwy y cyngor yn nodi y bydd (ac y byddai) pob enw stryd presennol (platiau enwau strydoedd) yn aros yn eu hiaith hysbys ac y byddai pob enw stryd newydd yn cael ei enwi'n ddwyieithog. |

| | | |
|---|---|---|
| **09/11/2022** | Pryderon am arwyddion traffig (gyda'r Saesneg yn gyntaf a'r Gymraeg yn ail) a diffyg iaith Gymraeg ar dudalennau gwe Trafnidiaeth Casnewydd. | Datryswyd gyda llythyr at y preswylydd yn esbonio y bydd yr holl arwyddion newydd yn cael eu darparu'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg fel yr iaith gyntaf. Mynegwyd fod hyn ar gyfer unrhyw ddarpariaeth newydd neu gynnal arwydd presennol.<br><br>Eglurwyd yn y llythyr nad yw'r cyngor yn gyfrifol am yr opsiynau iaith ar wefannau partneriaid allweddol.<br><br>Mae cymorth wedi'i gynnig i Trafnidiaeth Casnewydd ynghylch materion yn ymwneud â'r Gymraeg. |
| **01/03/2023** | Cwyn ynglŷn â chyfleuster parcio car sy'n eiddo i gwmni preifat sy'n gysylltiedig â diffyg gwasanaeth Cymraeg ar y peiriannau talu. | Datryswyd drwy gyfathrebu â'r ymwelydd nad cyfleuster sy'n eiddo i'r cyngor oedd y maes parcio, ac y dylid anfon y gŵyn i'r cwmni sy'n rheoli'r safle'n uniongyrchol. |

**Comisiynydd y Gymraeg**

Fel y nodwyd uchod, derbyniodd y Cyngor 2 gŵyn gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, roedd un gŵyn ar agor drwy gydol eleni o'r flwyddyn flaenorol.

| Dyddiad: | Natur y gŵyn | Camau a gymerwyd |
| --- | --- | --- |
| **07/01/2022** | Roedd y gŵyn hon yn parhau o adroddiad y flwyddyn flaenorol. Roedd preswylydd yn anhapus am beidio derbyn gwasanaeth Cymraeg wrth gysylltu â'r ganolfan alwadau am drwyddedau parcio.  Wrth gysylltu, ni chafodd y preswylydd ddewis Cymraeg ar gyfer trwyddedau parcio. | Rhaglen ddwys o hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith, delio â cheisiadau Cymraeg, proses fewnol o drin galwadau a gwasanaethau Cymraeg.<br><br>Mae'r holl drwyddedau parcio wedi'u diweddaru i lyfrynnau trwyddedau dwyieithog.<br><br>Roedd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn hapus gyda'r ymateb cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r gŵyn a rhannwyd y canlyniad dim camau pellach ar ddechrau 2023. |
| **15/03/23** | Hunanasesiad ar hyrwyddo'r Gymraeg ac ymarfer siopa cudd i archwilio pwyntiau mynediad i wasanaethau a gwybodaeth y cyngor. Cafodd materion eu codi yn ymwneud â:<br>• dolenni anghyson i wybodaeth (disgrifiadau swyddi Cymraeg) ar ochr Gymraeg gwefan y cyngor,<br>• galwadau Cymraeg i'r ganolfan alwadau ddim yn cael eu trin yn unol â'r safonau,<br>• rhai negeseuon ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y cyngor y tu allan i'r safonau. | Cafodd cynllun gweithredu cynhwysfawr ei lunio tua diwedd 2022/23 a bydd yn cael ei adrodd yn llawn yn yr adroddiad blynyddol nesaf. |

## 6. Hyfforddiant

Dan Safon 128, mae'n rhaid i'r Awdurdod gynnig rhaglenni hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y cyrsiau canlynol:

- Iechyd a diogelwch ar gyfer rheolwyr
- Sefydlu corfforaethol
- Rheoli perfformiad
- Cwrs sefydlu rheolaeth gorfforaethol

O'r cyrsiau a gynigir yn Gymraeg, ni ofynnwyd am unrhyw un gan aelodau staff, ac felly roedd presenoldeb yn 0% ar gyfer staff sy'n cwblhau'r cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg

### Hyfforddiant Cymraeg

Ailddechreuodd y gwaith o gyflwyno hyfforddiant Cymraeg i Oedolion eleni gan y gwasanaethau Cymraeg i Oedolion lleol yng Ngholeg Gwent. Parhaodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith mewnol ar-lein.

Rydym wedi adolygu ein fideos Cymraeg sydd bellach yn rhan annatod o sesiwn ymwybyddiaeth iaith y cyngor.

| Teitl y Cwrs | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| Cwrs Gwella i Siaradwyr Cymraeg | 2 | - | 0 |
| Cymraeg Gwaith, Cwrs Blasu 90 munud | 7 | - | 13 |
| Cwrs Lefel Mynediad 30 wythnos (Blwyddyn 1) | 0 | 31 | 27 |
| Cwrs Lefel Mynediad 30 wythnos (Blwyddyn 2) | 0 | 11 | 13 |
| Cwrs Lefel Sylfaen 30 wythnos (Blwyddyn 1) | 0 | 2 | 3 |
| Cwrs Lefel Sylfaen 30 wythnos (Blwyddyn 2) | | 7 | 2 |
| Canolradd – Blwyddyn 1 | | 2 | 5 |
| Canolradd – Blwyddyn 2 | | 6 | 1 |
| Uwch 1 | 0 | 0 | 2 |
| Uwch 2 | 0 | 0 | 1 |
| Gloywi | 0 | 0 | 1 |
| Ap Say Something in Welsh | 30 | 30 | 0 |

Mae Say Something in Welsh yn opsiwn dysgu ar y we a gynigiwyd i weithlu'r cyngor yn ystod cyfyngiadau symud y pandemig diweddar; sicrhau bod dysgwyr Cymraeg yn parhau i ymgysylltu â'r Gymraeg o bell tra bod sesiynau a ddarperir gan y darparwr Cymraeg i Oedolion lleol yn symud o wyneb yn wyneb i ddarpariaeth ar-lein. Y ffigur ar gyfer eleni yw sero oherwydd bod dysgwr wedi symud i sesiynau ar-lein gyda'r un darparwr.

Yn gyffredinol, mae gan y cyngor 29.03% o'r gweithlu gyda sgiliau sy'n amrywio o Gymraeg lefel mynediad i hyfedredd yn yr iaith.  O'r gweithlu sydd wedi ymateb i'r hunanasesiad, mae gan 8.1% sgiliau siarad  o lefelau canolradd i uwch sydd yn uwch na ffigwr y Gymraeg a siaredir yn ninas  Casnewydd yn ôl cyfrifiad 2021 (7.50%).

### Nifer y staff a fynychodd sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith.

| Teitl y Cwrs | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 |
|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth Iaith | 9 | 28 | 99 |

### Sgiliau Cymraeg Cyflogeion (ar 31/03/21)

| Niferoedd 2020/21 | Niferoedd 2021/2022 | Niferoedd 2022/2023 |
|---|---|---|
| 5865 | 5980 | 5958 |

Yn ystod cyfnodau adrodd blaenorol, roedd y cyngor yn gallu cymharu, a chyferbynnu datblygiadau gallu ieithyddol fesul gwasanaeth. Oherwydd ailstrwythuro diweddar, adrannau newydd yn cael eu creu, a chyfunodd adrannau, nid yw’n ymarferol cymharu tablau blaenorol ar gyfer sgiliau Cymraeg fesul gwasanaeth ar gyfer yr adroddiad eleni.   I ychwanegu at hyn, mae'r fframwaith ALTE sydd newydd ei fabwysiadu ar gyfer gallu yn y Gymraeg, ychydig yn wahanol i'r dull blaenorol o asesu sgiliau ieithyddol.  O ganlyniad i'r ddau newid diweddar, mae'r data isod yn cyfeirio at eleni yn unig, gyda'r categorïau newydd Darllen, Siarad/ Gwrando ac Ysgrifennu yn cael eu hystyried ar gyfer yr adroddiad.   Bydd data eleni yn cael ei ddefnyddio i feincnodi perfformiad ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

**Rhestr Sefydliad***

| | Nifer y Gweithwyr yn ôl Sgôr 2022/2023 gyda graddfeydd ALTE | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 2382 | 12391 | 9 | 219 | 197 | 18 | 4064 |
| Siarad/ Gwrando | 2116 | 1483 | 17 | 253 | 210 | 19 | 4098 |
| Ysgrifennu | 2407 | 1173 | 9 | 209 | 179 | 17 | 3965 |
| Canran y niferoedd | 38.51% | 21.75% | 0.20% | 3.81% | 3.27% | 0.30% | |

(*Mae'r mesur perfformiad hwn yn dibynnu ar aelodau staff yn hunanasesu eu sgiliau Cymraeg yn eu cyfrif Hunanwasanaeth Cyflogeion, ac felly efallai na fydd yn gyflawn.  Mae'r tîm Polisi a Phartneriaeth yn gweithio gyda chydweithwyr AD i atgoffa'r holl staff i gwblhau'r adran hon yn eu cyfrifon a darperir adroddiad ar lefel gwasanaeth i ofyn i reolwyr annog eu timau i gwblhau'r hunanasesiad).

**Yn Ôl Gwasanaeth:**

**Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol**

| | Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol yn ôl Sgôr 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 175 | 28 | - | 3 | 4 | - | 210 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Siarad/ Gwrando | 161 | 38 | - | 5 | 4 | - | 208 |
| Ysgrifennu | 172 | 21 | - | 2 | 4 | - | 199 |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

**Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc**

| | Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn ôl Sgôr 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 169 | 44 | 1 | 6 | 8 | 1 | 229 |
| Siarad/ Gwrando | 157 | 58 | 2 | 9 | 10 | 1 | 237 |
| Ysgrifennu | 168 | 34 | 2 | 7 | 9 | 1 | 221 |

**Pobl, Polisi a Thrawsnewid**

| | Nifer y Cyflogeion Pobl, Polisi a Thrawsnewid yn ôl Sgôr 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 64 | 10 | - | 3 | 2 | 1 | 80 |
| Siarad/ Gwrando | 57 | 18 | - | 3 | 2 | 1 | 81 |
| Ysgrifennu | 62 | 9 | - | 3 | 2 | 1 | 77 |

**Adfywio a Datblygu Economaidd**

| | Nifer y Cyflogeion Adfywio a Datblygu Economaidd yn ôl Sgôr 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 68 | 15 | - | 1 | 3 | - | 87 |
| Siarad/ Gwrando | 55 | 24 | - | 1 | 4 | - | 84 |
| Ysgrifennu | 64 | 12 | - | 2 | 2 | - | 80 |

**Cyflogeion Ysgol**

| | Nifer y Cyflogeion Ysgol yn ôl Sgôr 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 1278 | 952 | 8 | 182 | 148 | 14 | 2582 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Siarad/ Gwrando | 1114 | 1090 | 15 | 210 | 157 | 15 | 2601 |
| Ysgrifennu | 1294 | 928 | 7 | 168 | 153 | 13 | 2545 |

**Cyfarwyddwyr Strategol**

| | Nifer y Cyfarwyddwyr Strategol yn ôl Sgôr 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 2 | 1 | - | - | - | - | 3 |
| Siarad/ Gwrando | 2 | 1 | - | - | - | - | 3 |
| Ysgrifennu | 3 | - | - | - | - | - | 3 |

**Y Gyfraith a Rheoleiddio**

| | Nifer Cyflogeion y Gyfraith a Rheoliadau yn ôl Sgôr 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 54 | 13 | - | 2 | 4 | - | 73 |
| Siarad/ Gwrando | 49 | 19 | - | 2 | 4 | - | 74 |
| Ysgrifennu | 25656 | 11 | - | 2 | 3 | - | 72 |

**Addysg**

| | Nifer y Cyflogeion Addysg yn ôl Sgôr 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 78 | 32 | - | 8 | 5 | 1 | 124 |
| Siarad/ Gwrando | 68 | 42 | - | 8 | 5 | 1 | 124 |
| Ysgrifennu | 80 | 26 | - | 7 | 4 | 1 | 118 |

**Yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd**

| | Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau'r Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd yn ôl Sgôr 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 167 | 19 | - | 4 | 8 | 1 | 199 |
| Siarad/ Gwrando | 169 | 27 | - | 4 | 9 | 1 | 201 |
| Ysgrifennu | 166 | 16 | - | 5 | 6 | 1 | 194 |

**Cyllid**

| | Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau Cyllid yn ôl Sgôr 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 94 | 32 | - | 2 | 2 | - | 130 |
| Siarad/ Gwrando | 90 | 34 | - | 2 | 2 | - | 128 |
| Ysgrifennu | 92 | 30 | - | 1 | 2 | - | 125 |

**Tai a Chymunedau**

| | Nifer y Cyflogeion Tai a Chymunedau yn ôl Sgôr 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 69 | 17 | - | 1 | 4 | - | 91 |
| Siarad/ Gwrando | 58 | 24 | - | 2 | 3 | - | 88 |
| Ysgrifennu | 69 | 11 | - | 3 | 2 | - | 85 |

**Seilwaith**

| | Nifer y Cyflogeion Seilwaith yn ôl Sgôr 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 60 | 10 | - | - | 5 | - | 75 |
| Siarad/ Gwrando | 57 | 13 | - | - | 5 | - | 75 |
| Ysgrifennu | 58 | 10 | - | 1 | 4 | - | 73 |

**Atal a Chynhwysiant**

| | Nifer y Cyflogeion Atal a Chynhwysiant yn ôl Sgôr 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Cymraeg | Dim | Lefel 1 / Mynediad | Lefel 2 / Sylfaen | Lefel 3 / Canolradd | Lefel 4 / Uwch | Lefel 5 | Dim Cofnod |
| Darllen | 122 | 75 | - | 7 | 5 | - | 209 |
| Siarad/ Gwrando | 105 | 104 | - | 8 | 5 | - | 222 |
| Ysgrifennu | 122 | 65 | - | 8 | 6 | - | 201 |

*= Nid oes cofnod yn cyfeirio at y staff nad ydynt wedi nodi eu gallu yn y Gymraeg

DRAFT

## 7. Trosolwg ar y gwaith yn unol â'r Safonau

**Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

Mae'r adolygiad o'n cydymffurfiaeth â Safonau Darparu Gwasanaethau yn parhau ac mae'n rhan reolaidd o eitemau agenda cyfarfodydd GGG. Mae'r adroddiad blynyddol hwn, a ystyriwyd hefyd gan y Pwyllgor Craffu hefyd yn rhan bwysig o'r gwaith monitro hwn. Mae materion a chwynion allweddol hefyd yn cael eu cyfeirio at y tîm gweithredol.

Mae'r awdurdod yn parhau i ddangos cynnydd cadarnhaol, yn enwedig drwy'r agwedd gadarnhaol a ddangosir tuag at y Gymraeg gan staff. Mae cysondeb darparu gwasanaethau ar draws y sefydliad yn heriol o hyd, fodd bynnag gan fod Safonau Darparu Gwasanaethau'n ymwneud â gwasanaethau rheng flaen i aelodau'r cyhoedd, bydd y Safonau hyn yn parhau'n flaenoriaeth i ni, i'n GGG ac i'n cynllun gweithredu corfforaethol. Mae staffio a recriwtio yn parhau i fod yn anodd ac mae'n cyflwyno heriau sylweddol i'r awdurdod o ran parhau i ddarparu gwasanaethau. Fel ffordd o fynd i'r afael â hyn, rydym yn gweithio gydag ysgolion lleol i ddenu ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg am swyddi.

**Safonau Llunio Polisi**

Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, diweddarodd Cyngor Dinas Casnewydd ein Hasesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDChau) yn seiliedig ar ganllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar Safonau Llunio Polisi. Mae'r asesiad effaith integredig hwn bellach yn ein cefnogi i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

Mae asesiadau yn erbyn pob polisi newydd, diwygiedig neu adolygedig yn mynd rhagddynt, ac wrth ddatblygu cynigion a pholisïau, rhaid i swyddogion y Cyngor ystyried cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a'r effaith ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyfforddiant AEDChau newydd wedi'i ddatblygu a bydd ar gael yn ehangach yn y cyfnod nesaf.

**Safonau Gweithredol**

Mae ein hadran AD yn parhau i weithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau Gweithredol ar draws nifer o feysydd busnes. Drafftiodd is-grŵp o Grŵp Gweithredu'r Gymraeg Bolisi Sgiliau Iaith newydd a weithredwyd o fis Ebrill 2022. Mae hyfforddi'r gweithlu ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn brif flaenoriaeth i Gyngor Dinas Casnewydd i sicrhau ein bod yn cynnig y gwasanaethau Cymraeg gorau posibl ym mhob un o'n pwyntiau mynediad. O godi ymwybyddiaeth ynghylch safonau'r Gymraeg, sut maent yn llywio ein gwasanaethau a sut mae'n rhaid inni weithredu, hyd at gynyddu hygyrchedd i bob maes gwasanaeth i sesiynau Cymraeg. Mae'r cwrs ymwybyddiaeth iaith hwn yn orfodol i bob aelod o staff. Ymhellach, mae'r prosiect Sgwrsio Dros Ginio yn annog yr holl staff i ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg y maent wedi'u hennill ac i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd bob dydd. O ganlyniad, mae hyn wedi cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y cyngor, ac mae'n parhau i adeiladu ar hyder y gweithlu i gyfoethogi gwasanaethau Cymraeg i'n dinasyddion.

**Safonau Hyrwyddo**

Mae ein Strategaeth Hyrwyddo 5 mlynedd newydd yn gynhwysol ac yn hygyrch i holl gymunedau amrywiol Casnewydd. Ei nod yw dwyn ynghyd y gwaith gyda rhanddeiliaid, gwasanaethau eraill y

cyngor a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032. Mae hefyd yn gyrru cynnwys y Gymraeg gyda'r Bwrdd Sgiliau Cywir a'n partneriaid Casnewydd yn Un i sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff y Gymraeg ei monitro fel sgil yn y gweithle. O fewn y Strategaeth rydym hefyd yn anelu at sicrhau bod pobl Casnewydd yn gallu, ***"gweld, clywed, dysgu, defnyddio a charu"*** y Gymraeg. Mae'r Cyngor yn parhau i feddu ar Aelod Etholedig sy'n Hyrwyddwr y Gymraeg (y Cynghorydd John Harries ar gyfer y flwyddyn 2022-2023) sy'n cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y ddinas a'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn aelod o'r Fforwm Iaith, a gydlynir gan Fenter Iaith Casnewydd, ac a fynychir gan randdeiliaid Cymraeg allweddol.

**Cadw Cofnodion**

Mae gan y Cyngor system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC), sydd wedi gwella'r ffordd rydym yn cofnodi cwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gwybodaeth am ddewis iaith cwsmeriaid. Mae'r cyngor yn defnyddio'r system AD, iTrent, i fonitro a chadw cofnodion ar sgiliau Cymraeg cyflogeion, presenoldeb mewn cyrsiau hyfforddi perthnasol ac asesiadau Cymraeg o swyddi gwag.

**Monitro Perfformiad**

Mae'r cyngor yn parhau i adolygu'r ffordd y mae'n monitro'r gwaith o weithredu Safonau ar draws y sefydliad. Mae Cynllun Gweithredu, Cynllun Sefydliadol a Chynlluniau Gwasanaethau Unigol ar gyfer Safonau'r Gymraeg penodol sy'n berchen i wasanaeth adnabyddadwy wedi cael eu datblygu. Caiff y gwaith o gyflawni'r cynlluniau hyn ei fonitro gan y GGG ac mae dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cynnwys yn ein system rheoli perfformiad gorfforaethol. Mae hyn yn ei gwneud yn hawdd gweld data sefydliadol a data ar lefel gwasanaeth a'i fonitro. Mae mesurau perfformiad y Gymraeg eisoes wedi'u cynnwys yn fframwaith rheoli perfformiad a risg y cyngor yr adroddir arno bob chwarter ac yn ein hadroddiad blynyddol corfforaethol.

DRAFT

## 8. Edrych ymlaen at 2023/2024

Yn 2023/24, ein nod yw cyflawni nifer o flaenoriaethau a nodwyd yn flaenorol, gan gynnwys:

- Ymgysylltu â'r holl gymunedau Casnewydd i hyrwyddo'r Gymraeg, codi ymwybyddiaeth ac amlygrwydd yr iaith a pharhau i ddatblygu addysg Gymraeg a chynwysoldeb yr iaith.
- Gweithio gyda'n cymunedau o ffoaduriaid, mudwyr a chymunedau ethnig leiafrifol i ehangu mynediad i'r Gymraeg yn well; ymwreiddio'r Gymraeg yn well fel rhan o ymdeimlad o hunaniaeth a rennir ar draws y ddinas, yn enwedig yng nghyd-destun datblygu ein pedwaredd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.
- Adeiladu ar y trefniadau partneriaeth creadigol a ddatblygwyd y tu allan i'r sector cyhoeddus a gwirfoddol i godi proffil y Gymraeg yn well ledled Casnewydd gyda chyfleoedd yng nghlwb rygbi'r Dreigiau a Chlwb Pêl-droed Casnewydd
- Darparu dull cydlynol o ddatblygu sgiliau Cymraeg ar draws ein partneriaid Casnewydd yn Un drwy'r Bwrdd Sgiliau Cywir
- Cynnig cyrsiau Cymraeg ar gyfer siaradwyr sydd wedi anghofio'u gallu, neu'r rhai sydd angen hwb i'w hyder

Rydym hefyd wedi nodi nifer o flaenoriaethau newydd, gan gynnwys:

- Cymraeg Gwaith, cynllun grant newydd a fydd yn galluogi'r cyngor i gael mynediad at ddull arloesol wedi'i deilwra o addysgu Cymraeg o fewn y sefydliad sy'n cynnig:

    - Yr holl gwricwlwm Cymraeg i Oedolion
    - Sesiynau dysgu anffurfiol pwrpasol.
    - Sesiynau dysgu iaith dwys (ar-lein ac yng nghanolfan genedlaethol dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn).
    - Cefnogaeth un- i-un wedi'i theilwra ar gyfer staff sydd angen cyfarch wrth gynulleidfaoedd yn Gymraeg.
    - Cyfres o fodiwlau dysgu ar-lein sydd wedi'u teilwra ar gyfer sectorau penodol.
- Hyd yn oed mwy o ffocws ar recriwtio, cadw a datblygu siaradwyr Cymraeg ar draws yr holl feysydd gwasanaeth o fewn y cyngor, a
- Hwyluso a chefnogi digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn ac edrych ar y themâu trawsbynciol ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith o ran y Gymraeg, cysylltwch â nccequality@newport.gov.uk

DRAFT

Atodiad Un

## Adborth o rai o'r prosiectau a ddefnyddiodd y Grantiau Cymraeg yn y Gymuned

### Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru

Prosiect i greu adnodd dysgu Cymraeg newydd i'r amgueddfa a grëwyd ochr yn ochr â'r Ganolfan Gymraeg i sicrhau bod pob lefel o ddysgwyr yn cael eu cefnogi ac i gyflwyno digwyddiad i deuluoedd, gan gynnwys gweithgareddau i gefnogi plant mewn ysgolion Cymraeg ac i hyrwyddo'r iaith i blant di-Gymraeg.

***Diben y grant:*** Ysgrifennu adnodd Dysgu Cymraeg i oedolion, cynllunio, argraffu, digwyddiad i deuluoedd, amser staff.

*"Deilliannau:*
*Cyflwyno cyfres o ddigwyddiadau 'Triniaeth a Meddyginiaeth Rhufeinig / Lotions & Potions yn Amgueddfa Rufeinig Cymru yn ystod haf 2022. Adnodd a ddatblygwyd i oedolion sy'n dysgu archwilio Caerllion hanesyddol.*

*Cyflwynwyd y digwyddiad 'Triniaeth a Meddyginiaeth Rhufeinig / Lotions & Potions gan hwylusydd mewn gwisg Rufeinig bob dydd Gwener trwy gydol mis Awst 11am-1pm a 2-4pm. Cynhaliwyd y digwyddiad yng nghanolfan Pegasus sydd wedi'i lleoli yn yr Ardd Rufeinig yn yr Amgueddfa.*

***Hyrwyddo***
*Hyrwyddwyd digwyddiadau ac adnoddau drwy weithio mewn partneriaeth â Menter Iaith Casnewydd a Rhwydweithiau Fusion lleol i dargedu ysgolion a theuluoedd Cymraeg lleol. Hyrwyddwyd y digwyddiad hefyd fel rhan o'r ymgyrch 'Haf o Hwyl' Cenedlaethol - a gafodd ei hyrwyddo'n helaeth ledled Cymru.*

*Fe wnaethon ni ddefnyddio ymgyrch hyrwyddo â thâl ar Facebook. Targedwyd dysgwyr Cymraeg yn Ne-ddwyrain Cymru. Cafwyd ymateb cadarnhaol a lefel dda o ymgysylltu â'r negeseuon. Mae Menter Iaith yn rhannu ein negeseuon ac yn cysylltu ag ysgolion cynradd Cymraeg lleol cyn gwyliau'r haf i hyrwyddo'r digwyddiad. Fe wnaethon nhw hefyd rannu a chreu cynnwys cyfryngau cymdeithasol am y digwyddiad. Anfonwyd e-byst at rwydweithiau Fusion lleol yng Nghasnewydd, Caerffili a Chwmbrân i hyrwyddo'r gweithgaredd am ddim hwn. Hyrwyddwyd gweithgareddau ar wefan yr Amgueddfa.*

***Nifer y dysgwyr Cymraeg***

*Roedd y digwyddiad yn hynod boblogaidd a phrysur gyda theuluoedd ac ymwelwyr o bob oed yn bresennol bob dydd y cafodd ei gynnig. Fodd bynnag, roeddem wedi gobeithio y byddai mwy o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn y digwyddiad, fodd bynnag, er gwaethaf ein hymdrechion gorau i hyrwyddo'r digwyddiad, gyda phartneriaid, roedd nifer y dysgwyr Cymraeg a ddaeth i'r digwyddiad yn isel. Ar ddiwrnodau'r digwyddiad, dim ond dau neu dri theulu Cymraeg oedd yn y digwyddiad. Eglurodd Menter Iaith fod y nifer sy'n manteisio ar ddigwyddiadau yn ardal Casnewydd yn weddol isel. Roedd y rhai a fynychodd yn ddiolchgar iawn i gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg a gwella eu Cymraeg.*

*Cododd y digwyddiad broffil y Gymraeg i ymwelwyr o weddill y DU a'r di-Gymraeg yng Nghymru mewn ffordd hwyliog a difyr. Gadawodd yr holl gyfranogwyr gyda'u taflenni geirfa Cymraeg eu hunain.*

*Cafodd staff di-Gymraeg yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru hefyd gyfle i ymarfer a magu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.*

***Dyfyniad gan deulu**:*

*Dros yr haf es i Gaerllion gyda fy nwy wyres sy'n*
*5 a 7 oed* Maen nhw'n ddisgyblion mewn Ysgol Gymraeg leol. Aethom i mewn i'r Amgueddfa a gweld meddyg Rhufeinig gyda phob math o feddyginiaethau. Roedd yn wych i fy wyresau gael y cyfle i siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol a hoffwn ddiolch i'r trefnwyr. *Hwyl fawr am y tro."*

**Y Groes Goch Brydeinig.**

Cefnogi a chynyddu defnydd, ymwybyddiaeth ac amlygrwydd y Gymraeg drwy dargedu ffoaduriaid / ceiswyr lloches a'r gymuned BAME ehangach yn benodol drwy gynnal diwrnod o ddigwyddiadau cyfeillgar i'r teulu. Gyda digwyddiadau fel: Sesiynau blasu Cymraeg, perfformiadau Cymraeg, diddanwyr cymunedol, sgyrsiau a gweithdai gan aelodau uchel eu proffil o'r gymuned BAME sy'n siarad Cymraeg i arddangos y defnydd o'r iaith o safbwynt amlddiwylliannol.

***Diben y grant:*** Technegydd sain a goleuo, tywyswyr, stiwdios, adnoddau i deuluoedd, amser swyddogion, artistiaid / siaradwyr, bwyd.

*"Cynhaliwyd Gŵyl Gymraeg i Bawb ar 25.06.22 yn Theatr Glan yr Afon. Trefnwyd y diwrnod gan y Groes Goch Brydeinig a Dysgu Cymraeg Gwent ac fe wnaeth y theatr gydweithio'n dda iawn gyda ni gan roi eu cefnogaeth lawn i'r digwyddiad.*

*Roedd gan sawl sefydliad a gefnogodd y diwrnod stondinau yno gan gynnwys Menter Casnewydd, Rhwydwaith Lleisiau'r Groes Goch, Art on the Front, Dysgu Cymraeg Gwent, Dysgu Cymraeg Caerdydd a Chymraeg i Blant a stondin paentio wynebau a fu'n brysur iawn drwy'r dydd. Cynhaliwyd sesiynau ffitrwydd ar gyfer y teulu, crefftau i blant, sesiynau Ti a Fi, gwersi blasu Croeso i Bawb, panel o siaradwyr gwadd gan gynnwys Seren Jones, Ameer Davies-Rana a Shereen Williams, cerddoriaeth Gymraeg gan Eirian Conlon a dawnsio Swdanaidd gan grŵp lleol. Roedd crèche ar gael drwy'r dydd gyda chefnogaeth 'Gofal Dydd Yellow Bunnies' fel y gallai rhieni fwynhau sesiynau blasu a ffitrwydd heb y plant a darparwyd cinio gan Sefydliad Alice.*

*Roedd y diwrnod ei hun yn llwyddiannus iawn, gan godi ymwybyddiaeth o'r iaith yn y gymuned a dechreuwyd dosbarth Croeso i Bawb drwy Rwydwaith Lleisiau'r Groes Goch o ganlyniad i'r diwrnod. Roedd sawl teulu yno gyda phlant bach yn dysgu am addysg drwy'r Gymraeg felly y gobaith yw y bydd y teuluoedd a oedd yno yn ystyried anfon eu plant i'r ysgolion Cymraeg pan ddaw'r amser."*

**Cymuned Ddiwylliannol Hwngaraidd yng Nghasnewydd**

Amcan y prosiect yw dathlu a chadw'r ieithoedd Hwngareg a Chymraeg yng Nghasnewydd a meithrin cysylltiadau rhwng y cymunedau, addysgu am wreiddiau a thraddodiadau'r gymuned fel y gellir eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol a phontio cymunedau Hwngaraidd a Chymreig.

***Diben y grant***: Rhent, gemau bwrdd / teganau / postio, bwyd, cynhyrchion glanhau, costau teithio, cyfieithydd Cymraeg-Saesneg.

*"Roeddem wrth ein bodd o gael y cyfle i fanteisio ar y grant hwn, oherwydd rydyn ni o'r farn ei bod yn bwysig i'n plant ddysgu'r iaith a'r traddodiadau Cymreig, fel y gallant wella eu gwybodaeth o'r ardal hon y maen nhw'n byw ynddi.*

*Roedd hefyd yn gyfle gwych i'n cymuned agor i blant Cymru a dangos ein diwylliant iddyn nhw hefyd.*

*Mae plant wrth eu bodd yn chwarae, mae'n iaith gyffredin, felly yn y rownd gyntaf, diolch i'r grant, lansiwyd cyfres o ddigwyddiadau lle gallai plant Hwngaraidd a ddaeth i'n hysgol wahodd eu ffrindiau bach Cymraeg a'u teuluoedd.*

*Ynghyd ag athrawon Hwngaraidd, Saesneg a Chymraeg, fe wnaethom drefnu nifer o weithgareddau a gemau bach i wella eu gwybodaeth am y tair iaith. Dysgodd y plant eiriau newydd trwy chwarae a mynd â'r cardiau geiriau adref gyda nhw bob tro. Am weddill y*

*dydd, fe wnaethon nhw chwarae gemau bwrdd gyda ni, gan gynnwys llawer o gemau geiriau, gan wella'r wybodaeth yr oeddent wedi'i dysgu y diwrnod hwnnw. Cynhaliwyd y digwyddiad sawl gwaith ac roedd yn llwyddiant ysgubol.*

*Felly, fe benderfynon ni y bydden ni'n parhau ag ef y flwyddyn nesaf ac, yn ogystal ag ehangu eu geirfa, eu cyflwyno i ddawnsfeydd, bwyd a golygfeydd traddodiadol.*

*Diolch am ganiatáu i ni gynnig y fath brofiad i'r plant drwy gael y grant."*

**Sefydliad Dysgu Teuluol Cymunedol y Gaer**

Cynnal gweithdai rhyngweithiol a chynhwysol i Deuluoedd a Chymuned y Gaer ddysgu am ddiwylliant Cymru wrth ddysgu Cymraeg achlysurol a sgyrsiol a chreu amgylchedd cymdeithasol i bobl ddatblygu sgiliau Cymraeg yn naturiol.
Bydd ganddynt hefyd brosiect 'Blas ar Gymru' ar gyfer teuluoedd lleol sy'n gysylltiedig ag Ysgol Gynradd y Gaer i ddysgu ac ymarfer hanfodion yr iaith mewn amgylchedd hamddenol. Mae cynnig y Gymraeg drwy weithgareddau yn caniatáu i ddiwylliannau amrywiol y Gaer gymryd rhan a dysgu am y diwylliant a'r iaith.

***Diben y grant:*** Adnoddau, trafnidiaeth, cyfeilydd, recordiad stiwdio, llogi lleoliad, cynhwysion coginio, rhaglen ddogfen ddwyieithog, defnyddiau traul.

*"Diolch i'r grant Cymraeg yn y Gymuned a gafwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd, rydym wedi gallu cyflwyno prosiect 'Blas o Gymru' cyfoethog a diwylliannol i'n cymuned deuluol yn y Gaer trwy gelf, crefftau, cerddoriaeth a bwyd.*

*Mae'r prosiect wedi ein galluogi i ddysgu ac ymgorffori Cymraeg achlysurol drwy lawer o weithdai o safon mewn partneriaeth â darparwyr lleol a defnyddio amwynderau a lleoliadau lleol.*

*Mae bod yn Gymraeg yn fwy na dysgu'r iaith, mae'n dreftadaeth lawn a chyfoethog sy'n llawn balchder a thraddodiad. Roedd ein prosiect yn canolbwyntio ar ddysgu am rai o'n bwydydd traddodiadol, crefftau, caneuon a'r dawnsio gwerin!*

*Credwn fod y prosiect wedi creu hyb cymdeithasol estynedig ar gyfer dysgu'n ddwyieithog a gyda ffocws a dealltwriaeth go iawn ar Gymru. Mae ein tapestri cyfoethog o ddysgu wedi'i ddogfennu ac mae ar gael i chi ei ddefnyddio fel tystiolaeth.*

*Dyma'r ddolen i'n rhaglen ddogfen: https://youtu.be/8u9AMrLkxVU "*

**Casnewydd Fyw**

Nodau’r prosiect: Bydd pob gweithiwr Casnewydd Fyw yn cael cardiau fflach Cymraeg i ddysgu geiriau / ymadroddion defnyddiol i'w defnyddio yn yr amgylchedd gwaith ynghyd â fideos hyfforddi ar-lein.

Bydd y prosiect hefyd yn treialu 2 brosiect cerddorol. Y cyntaf yw noson gerddoriaeth Gymraeg yng Nglan yr Afon gydag artistiaid ac ysgolion lleol yn perfformio, gyda chymysgedd o gynulleidfa Gymraeg a di-Gymraeg. Yr ail fyddai côr cyfrwng Cymraeg ar Ddydd Santes Dwynwen, yn cynnwys 6 sesiwn ymarfer côr wythnosol, gan roi cyfle i bobl leol ddatblygu eu gwybodaeth am ddiwylliant Cymru.

Bydd cyfleoedd hefyd i blant gymryd rhan mewn gweithdai creadigol trwy gyfrwng y Gymraeg.

***Diben y grant:*** Cardiau fflach Cymraeg, prosiect côr, noson gerddoriaeth, gweithdai cyfnod gwyliau i bobl ifanc.

*"**Canu Casnewydd** - Comisiynwyd "Operasonic" i gyflwyno rhaglen 8 wythnos a oedd yn cynnig amgylchedd hwyliog a chyfeillgar ar gyfer dysgu caneuon Cymraeg traddodiadol.*

*Roedd yr ymarferion côr ar agor i bawb yn Theatr Glan yr Afon. Bu siaradwyr Cymraeg a dysgwyr brwdfrydig yn cymryd rhan.*


*Ar ddiwedd y prosiect, rhoddodd y côr newydd ei ffurfio berfformiad o'r caneuon yn ardal atriwm Glan yr Afon ar Ddydd Gŵyl Dewi 2022. Roedd y perfformiad hwn yn rhagflaenu perfformiad theatraidd o'r ddrama lwyfan "Carwyn". Creu noson o adloniant â thema Gymreig.*

*Daeth 30+ o unigolion i sesiynau ymarfer a pherfformiad y côr.*
*Fideo o berfformiad Canu Casnewydd ar Ddydd Gŵyl Dewi 2022 yn Theatr Glan yr Afon.*
*https://fb.watch/bv8DnjdtNY/*

***Clwb Creadigol** - Cyflwynodd Tîm Glan yr Afon sesiynau celfyddydol Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon.*

*Rhoddodd hyn gyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau celf a chrefft, cymdeithasu yn y Gymraeg a hefyd bod yn rhan o'r recordiadau sain ar gyfer ein profiad trochi ‘Wonderland’ yng Ngwanwyn 2022.*

*Hysbyseb ar gyfer sesiynau’r Clwb Creadigol.*




*__Cardiau Fflach Cymraeg__ ar gyfer tua 450 o staff - Mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno ar draws y sefydliad ar hyn o bryd. Bydd y cardiau hyn yn eistedd ochr yn ochr â fideos addysgol yn dangos ynganiad a chyd-destun yr ymadroddion.*

*Llun o'r Cardiau Fflach Cymraeg a gynhyrchwyd ar gyfer Staff Casnewydd Fyw*




*Bydd pob aelod o staff (tua 450) yn derbyn set o gardiau fflach i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg."*

**Menter Iaith Casnewydd**

Creu a chynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith, drwy gynnal sesiynau ymwybyddiaeth gymunedol ar-lein ac wyneb yn wyneb gan dargedu ardal Pilgwenlli yng Nghasnewydd yn benodol. Bydd y prosiect yn gweld cyfres o sesiynau galw heibio byr yn ystod yr wythnos ac ar y penwythnos gan sicrhau bod croeso i bobl â phlant. Rydym yn darparu gweithgareddau i'r plant.

Nod y prosiect yw codi diddordeb mewn addysg Gymraeg yn y rhanbarth a hyrwyddo manteision defnyddio'r Gymraeg i rieni plant sydd mewn ysgolion Saesneg. Mae Menter Iaith Casnewydd hefyd yn bwriadu croesawu pobl o bob cefndir a phob rhan o gymdeithas sydd heb gael y cyfle i ddysgu Cymraeg oherwydd tueddiadau hanesyddol.

***Diben y grant:*** Ymgynghori â phartneriaid, datblygu deunyddiau ymwybyddiaeth, darparu holiaduron gwybodaeth, gosod / hyrwyddo adnoddau ymwybyddiaeth ar y wefan, trefnu sesiynau ymwybyddiaeth wyneb yn wyneb, rhent, sesiynau, deunyddiau chwarae, dadansoddi data.

*"Fe wnaethon ni gynnal digwyddiad dathlu Gŵyl Dewi hynod lwyddiannus yng Nghanolfan Mileniwm Pilgwenlli brynhawn Sadwrn, 3pm – 5pm ar 4 Mawrth. Gwahoddwyd ein partneriaid i gymryd rhan, gyda stondinau ar gyfer Cymraeg i Blant, RHAG, Stwff a Chyngor Dinas Casnewydd. Dewiswyd y lleoliad hwn yn benodol gan mai Pilgwenlli yw lle bydd ysgol Gymraeg fwyaf newydd Casnewydd wedi'i lleoli unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau.*

*Daeth dros 200 o drigolion lleol i'r digwyddiad. Cynhaliwyd y digwyddiad ar brynhawn Sadwrn, gydag aelodau o'r gymuned a fynychodd yn dathlu'r iaith a diwylliant Cymru. Yn ystod y digwyddiad, cawsom y cyfle, gyda'n partneriaid, i roi gwybod i'r rhai a fynychodd am gyfleoedd addysg Gymraeg a siarad am yr ysgol newydd. Gwahoddwyd y teuluoedd a'u plant ifanc o'r gymuned i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau Cymraeg ar y diwrnod; o weithgareddau crefft i flasu cacennau cri a mwynhau cerddoriaeth Gymraeg (a berfformiwyd gan fand Cymraeg lleol). Roedd presenoldeb ac ymgysylltiad yn y digwyddiad wedi rhagori ar ein disgwyliadau a dywedodd nifer o'r partneriaid eu bod wedi cael sgyrsiau a thrafodaethau gydag unigolion a oedd yn gwbl anymwybodol o addysg Gymraeg (gan gynnwys teuluoedd a oedd wedi symud i Gasnewydd o Fryste) a bod ganddynt ddiddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth ar ôl y digwyddiad. Cafodd y digwyddiad ei hysbysebu ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer yr ardal ac ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ein hunain."*

***Poster ar gyfer y digwyddiad***

